

# smalltalk

Cylchgrawn aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru

Haf 2021 | Rhifyn 142 | £7

## Gofal plant ar y llinell flaen... flwyddyn ymlaen

- **Ymchwil:** Pwysigrwydd gwasanaethau blynyddoedd cynnar o ansawdd da
- **Astudiaethau achos:** Sut mae Covid-19 wedi newid y ffordd rydych chi'n darparu
- **Pwnc Trafod:** Cynnwys a chysylltu plant a'r oedolion pwysig yn eu bywydau

---

**Llifolau ar enillydd Lleoliad y Flwyddyn 2020 Blynyddoedd Cynnar Cymru**

---

**Cyngor diogelwch ar lein oddi wrth yr NSPCC**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Ansawdd i Bawb: Yn Cyflwyno Pecyn Cymorth Ymwybyddiaeth Ansawdd Gofal Plant

**Yn rhifyn y gwanwyn, roeddem yn dweud wrthych ein bod yn datblygu Pecyn Cymorth Ymwybyddiaeth Ansawdd fel model amgen ar gyfer ein hachrediad traddodiadol Ansawdd i Bawb, i fodd yn ffordd dros dro o gydnabod y gwaith rhagorol sy'n dal i gael ei wneud gan ddarparwyr gofal plant ar adeg heriol yma ac i helpu i adfer lleoliadau o'r anawsterau a grëwyd gan Covid-19.**

Roedden ni'n gwybod, gan fod asesiadau Ansawdd i Bawb yn aros wedi cael eu gohirio, ein bod angen math gwahanol o asesiad ansawdd fel mesur dros dro ac, yn Blynyddoedd Cynnar Cymru, rydym yn dal i ryfeddu sut y mae ein haelodau a'r sector ehangach gofal plant wedi ymateb i'r amgylchiadau newydd ac wedi addasu i'r newidiadau yn y canllawiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roeddwn eisiau cofnodi hyn.

Canlyniad y gwaith hwn yw'r Pecyn Cymorth Ymwybyddiaeth Ansawdd Gofal Plant.

**Y Pecyn Cymorth:**

- mae'n cynnwys Pecyn Cymorth hawdd ei gwblhau, gyda,
- Thrafodaeth Broffesiynol rithiol gydag asesydd profiadol,
- y cyfan o'r broses yn caniatáu ystyried a chydnabod ystod y gwaith a wnaed gan staff cymwys.
- ar ôl cwblhau, byddwch yn derbyn crynodeb ysgrifenedig a Thystysgrif, y ddau yn cydnabod eich gwaith..

**Sut mae'n gweithio:**

Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys rhestr wirio i'w chwblhau gan y darparydd, yn caniatáu amser i ystyried y gwaith sydd wedi'u gwneud i gydymffurfio gyda deddfwriaeth a chanllawiau. Gofynnir i'r darparydd gyflwyno tystiolaeth berthnasol a chryno (pethau sydd eisoes wedi'u gwneud).

***'roedd y dystiolaeth yn hawdd ei chasglu gan ei bod yn wybodaeth yr oeddwn yn ei defnyddio'n ddyddiol'***

***'Roeddwn yn hoffi ei fod yn eich helpu i ganfod unrhyw ffyrdd ymlaen ar gyfer y lleoliad.'***

Yn olaf, bydd Asesydd profiadol yn cynnal trafodaeth broffesiynol gyda'r darparydd trwy alwad fideo.

***'Roedd yr asesydd yn dda iawn, yn darparu gwybodaeth ragorol, yn gefnogol ac yn deall ein math ni o leoliad yn iawn.'***

Mae'r rhestr wirio a'r drafodaeth ar ôl hynny'n canolbwyntio'n bennaf ar y sefyllfa rydym yn ei wynebu heddiw ac yn cynnig cadarnhad a chydnabyddiaeth o waith caled y darparydd yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Mae'n Aseswyr yn edrych am leoliadau gofal plant sy'n deall pa fesurau sydd raid eu gweithredu er mwyn atal a rheoli haint ac i gadw staff, y plant a'u teuluoedd yn ddiogel.

***'Mae wedi gwneud i chi ystyried y newidiadau ac ymarfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi gwneud i chi sylweddoli faint rydym wedi'i gyflawni fel tîm yn ystod y pandemig.'***

Drwy gwblhau'r Pecyn Cymorth, roedd darparwyr yn dweud wrthym nid yn unig nad y broses yn anodd ond yn wir, ei bod o help i wynebu'r heriau sy'n codi ar hyn o bryd a'i bod yn ffordd o gydnabod y gwaith rhagorol sy'n dal i gael ei wneud.

***'I mi, roedd y profiad cyfan yn hawdd ac yn gyfle i ddysgu. Buaswn yn argymell i bobl ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn i gynnal eu darpariaeth a'i ddefnyddio fel dogfen hunan werthuso a chynllun gwella lleoliad.'***

***'Yn benodol roeddwn i'r hoffi'r prinder jargon - roedd y cwestiynau'n glir ac roedd yn hawdd deall pa dystiolaeth ayb a oedd ei angen i gefnogi'n hatebion.'***

***'Roedd yn teimlo fel petai wedi'i baratoi gan rywun a oedd yn wirioneddol deall y problemau a'r ffordd y mae lleoliadau'n cael eu rhedeg yn realistig ac yn ymdopi gyda'r argyfwng.'***

Erbyn hyn rydym wedi cwblhau'r cyfnod peilot ac wedi adolygu'r Pecyn Cymorth cyn dechrau ei gyflwyno i'r rhai sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd yn Ansawdd i Bawb, diolch i gael digon o arian i dalu'r costau. Bydd pris y Pecyn Cymorth yn cael ei gadw mor isel â phosibl yn y dyfodol ac rydym yn gwahodd unrhyw ddarparwyr sydd â diddordeb mewn cwblhau'r Pecyn Cymorth i gysylltu â Claire Thomas **clairet@earlyyears.wales** neu ewch at **https://www.earlyyears.wales/cy** i ganfod rhagor.



‘Roedd y profiad cyfan o’r pecyn gwaith ansawdd gofal plant yn bositif. Teimlais fod y rhestr wirio’n dangos yn glir pa ganlyniad a ddisgwylid, roedd y cwestiynau ar ddiwedd pob adran o fantais i mi wrth baratoi ar gyfer yr alwad fideo. Yn ystod y drafodaeth gyda’r asesydd, roeddwn i’n teimlo fy ysbryd yn codi ac, er bod y cyfnod hwn yn un ansicr ac yn dal i newid, ein bod yn gwneud gwaith gwych. Ar ôl gorffen yr alwad fideo, roeddwn i’n cysylltu â’m tîm i ddweud pa mor dda yr oedd yr asesiad wedi mynd a pha mor werthfawrogol yr oedd hi gyda’n hymarfer.’

**Efallai y byddwch hefyd â diddordeb mewn:**

Ansawdd i Bawb Rhannu Ymarfer o Ansawdd Rhan 3: Chwarae a Datblygu, ***small*talk** (gwanwyn 2021), tudalen 18 – 20
Ansawdd i Bawb Rhannu Ymarfer o Ansawdd Rhan 2: Amgylchedd Gofal Plant ***small*talk**, (gaeaf 2020), tudalen 12 – 16
Ansawdd i Bawb Rhannu Ymarfer o Ansawdd Rhan 1: Arweinyddiaeth a Rheolaeth, ***small*talk**, (hydref 2020), tudalen 18 – 21

**Gweler hefyd:**

Gall aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru lawrlwytho amrywiaeth o adnoddau Covid-19 gan gynnwys Asesiadau Risg a Chanllawiau ar Reoli Swigod, Hylendid Dwylo a Chadw Pellter Cymdeithasol drwy fewngofnodi i’ch cyfrif ar lein a mynd at: https://www.earlyyears.wales/cy/adnoddau-covid-19